

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood MS Chair
Clerc y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Welsh Parliament
Cardiff Bay
CF99 1SN

Ein Cyf: JP/LC

31 Ionawr 2022

Annwyl Cadeirydd,

Diolch am lythyr y Pwyllgor ar 10 Rhagfyr 2021 yn dilyn fy sesiwn ar 17 Rhagfyr 2021.
Gweler isod ymateb i'ch camau gweithredu yn y drefn y'u codwyd yn eich llythyr.

Gofal Cymdeithasol

Mae Gofalwn Cymru wedi bod yn cynnal ymgyrch recriwtio a chadw staff barhaus a ddechreuodd ym mis Awst 2021 gan ddefnyddio amrywiaeth o hysbysebion, yn cynnwys hysbysebion teledu, hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol, hysbysebion sinema, arddangosiadau digidol mewn archfarchnadoedd a hysbysebion print mewn gorsafoedd bysiau.

Mae hyn wedi arwain at fwy o draffig ar borth swyddi Gofalwn.Cymru: mae wedi amrywio ond mae wedi bod cymaint â theirgwaith yr hyn ydoedd o gymharu â chyn dechrau'r ymgyrch. Cyrhaeddodd hysbysebion teledu 65% o'r boblogaeth oedolion yng Nghymru yn ystod dau fis cyntaf yr ymgyrch (Awst/Medi 2021). Yn anffodus, gan fod gofal cymdeithasol yn faes amrywiol ac yn y sector annibynnol yn bennaf, nid oes gennym fynediad at ystadegau pellach ar yr effaith ar ymgeisio am swyddi neu lenwi swyddi.

Mae cynlluniau ar gyfer gweithgarwch pellach yn y cyfryngau yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, gyda chyfanswm o £481,000 wedi'i fuddsoddi, gan gynnwys cynhyrchu hysbyseb deledu newydd i ysgogi mwy o ddiddordeb yn y sector.

Mae porth swyddi Gofalwn.Cymru yn hysbysebu cannoedd o swyddi ar unrhyw un adeg. Mae holl weithgarwch yr ymgyrch yn cael ei gyfeirio at y porth, sydd hefyd â gwybodaeth am hyfforddiant "Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol" ar-lein am ddim, rhaglen 3 diwrnod ar-lein sy'n cwmpasu'r hanfodion sydd eu hangen i ddechrau gweithio ym maes gofal cymdeithasol megis cyfathrebu, diogelu ac arferion gwaith. Mae slotiau amser gyda'r nos ar gael hefyd i sicrhau bod y rhaglen yn gwbl hyblyg.

Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)

O ystyried y gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo yn y maes hwn, nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gynnal na chomisiynu'r math o astudiaeth a ddisgrifir yn llythyr y Pwyllgor, ond bydd yn disgwyl gyda diddordeb ganlyniadau unrhyw astudiaeth o'r fath yn Lloegr.

Fel sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), mae Byrddau Iechyd yn ymchwilio i holl farwolaethau staff i bennu a ddylid eu hadrodd fel cysylltiad galwedigaethol o dan RIDDOR (Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013).

Ymchwilir i bob claf a gafodd COVID-19 yn yr ysbyty fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau *Gweithio i Wella*. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi yn y gwaith hwn i sicrhau cwrmpas llawn a chyflym iddo.

Cyllid

Ar 31 Rhagfyr 2021, mae sefydliadau'r GIG yn adrodd am ddiffyg cronol cyffredinol o £34.5 miliwn ac yn rhagweld diffyg alldro diwedd blwyddyn o £49.1 miliwn. Mae'r diffyg cyffredinol yn deillio'n gyfan gwbl o sefyllfaoedd ariannol Byrddau Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bae Abertawe. Mae'r ddau sefydliad hyn yn rhagweld diffyg alldro diwedd blwyddyn o £25 miliwn yn achos Hywel Dda a £24.4 miliwn yn achos Bae Abertawe. Mae holl sefydliadau eraill y GIG yn adrodd tanwariant bach ar ddiwedd mis Rhagfyr, ac maent yn rhagweld y byddant wedi mantoli'r gyllideb neu wedi tanwario ychydig ar ddiwedd y flwyddyn.

Fel y nodwyd yn y cynllun adfer cenedlaethol "GIG Cymru Covid-19 Edrych tua'r Dyfodol" ym mis Mawrth 2021, roedd angen adferiad ar draws y system er mwyn sicrhau tegwch ac adferiad realistig. Nododd yn glir feysydd blaenoriaeth allweddol y dylai'r buddsoddiad ychwanegol eu targedu bryd hynny ac yn y dyfodol;

- Lleihau anghydraddoldebau iechyd i sicrhau Cymru decach – mae enghreifftiau'n cynnwys mwy o ymchwil i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r safonau amddiffyn rhyddid newydd, ac i ddarparu cymorth iechyd ychwanegol i garchardai.
- Adeiladu gofal sylfaenol a chymunedol mwy ymatebol - mae enghraifft yn cynnwys buddsoddiad ychwanegol i gefnogi dileu'r ôl-groniad o archwiliadau iechyd blynyddol ar gyfer cyflyrau cronig. Cymorth fferylliaeth i gynyddu ystod y gwasanaethau sydd ar gael drwy wasanaethau fferylliaeth gymunedol
- Creu gwasanaethau iechyd meddwl cefnogol - Ailddylunio gwasanaethau a chymorth amgen megis cymorth ar-lein a thros y ffôn a buddsoddiad ychwanegol i gefnogi cynllun iechyd meddwl
- Gwasanaethau ysbyty mwy effeithiol ac effeithlon - yn cael eu rhoi yn uniongyrchol i fyrddau iechyd i gefnogi gwasanaethau diagnostig, triniaeth ac adolygu ychwanegol a ddarperir yn fewnol neu drwy drefniadau comisiynu allanol

- Gweithio gwell rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol - buddsoddiad ychwanegol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol i gefnogi atebion partneriaeth effeithiol, yn enwedig o ran gwella oedi wrth drosglwyddo gofal a llif drwy'r system
- Cefnogi ac adeiladu gweithlu gwydn - darparwyd arian ychwanegol i gefnogi lles gweithlu'r GIG a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Fe'i defnyddiwyd hefyd i gefnogi gweithgarwch recriwtio a chadw ychwanegol ar draws y ddau sector.
- Darparu cymorth digidol hygyrch - cynyddu cymorth digidol i'r system gofal brys 111, gan gynyddu'r cymorth digidol ar gyfer cynnal adolygiadau rhithwir o gleifion mewn gofal sylfaenol ac eilaidd

Nod y cynllun adfer a blaenoriaethu'r buddsoddiadau oedd lleihau effaith sylweddol Covid-19 ar ein system iechyd a gofal cymdeithasol, cleifion a staff. Mae'r meysydd a nodwyd yn darparu strwythur i nodi ble y dylid targedu buddsoddiad wrth i ni ddechrau ar y llwybr i adferiad.

Lefelau Stoc Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am gyhoeddi data stoc PPE wedi'i chynnwys o dan Argymhelliad 5 yn yr adran **Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol – PPE** isod.

Er mwyn sicrhau bod PPE priodol yn cael ei ddefnyddio ym mhob lleoliad, mae Cymru'n dilyn y gofynion PPE a nodir yng nghanllawiau Atal a Rheoli Heintiau (IPC) y DU. Mae'r canllawiau IPC ar gyfer pedair gwlad y DU ac maent yn seiliedig ar adolygiad parhaus o'r dystiolaeth sydd ar gael.

Gydol y pandemig, drwy fod yn aelod o grŵp IPC y DU, mae Cymru wedi gwneud, ac yn parhau i wneud, cyfraniad gweithredol at y gwaith o ddatblygu a gwerthuso'r canllawiau IPC yn barhaus, gan gynnwys y gofyniad sy'n seiliedig ar risg am PPE mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Cymru, fel holl wledydd y DU, wedi cadw at y canllawiau hyn a bydd yn parhau i wneud hynny.

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) sy'n gyfrifol am gaffael a chyflenwi'r eitemau PPE gofynnol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, ac fe'i cefnogir gan Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol (SMTL) NWSSP i sicrhau bod y PPE a ddarperir yn bodloni safonau technegol ac ansawdd.

Mae sefydliadau'r GIG a darparwyr gofal cymdeithasol yn gyfrifol am weithredu'r canllawiau mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol unigol.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i sicrhau'r Pwyllgor bod cyflenwi a dosbarthu PPE o safon uchel i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen yn parhau i fod yn rhan allweddol o ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig COVID-19 parhaus.

Ers dechrau'r pandemig, mae dros 1.2 biliwn o eitemau o PPE wedi'u darparu. O'r rhain, mae dros 500 miliwn wedi'u darparu i ofal cymdeithasol. Nid yw Cymru wedi rhedeg allan o PPE ar lefel genedlaethol ar unrhyw adeg.

Mae'r sefyllfa PPE yng Nghymru yn parhau'n sefydlog. Adlewyrchwyd y gwersi a ddysgwyd ar ddechrau'r pandemig yn *PPE Winter Plan* NWSSP (Medi 2020) ac yn *Longer-term PPE Plan* presennol NWSSP (Hydref 2021). Elfennau allweddol y ddau gynllun yw sicrhau bod PPE am ddim yn cael ei gaffael a'i gyflenwi yn barhaus i leoliadau iechyd, gofal

cymdeithasol a gofal sylfaenol ehangach. Yn ogystal, gofynnwyd i NWSSP gynnal cyflenwad wrth gefn o eitemau PPE craidd a fyddai'n para o leiaf 16 wythnos (yn seiliedig ar y gyfradd ddosbarthu pan oedd y pandemig ar ei anterth) i sicrhau ein bod yn barod.

Ar gyfer eitemau lle nad oes gennym y lefelau wrth gefn hyn neu fwy, mae archebion wedi'u gwneud ac mae fframwaith PPE newydd sy'n cydymffurfio'n llawn yn cael ei sefydlu ar gyfer eitemau PPE craidd er mwyn sicrhau gwydnwch parhaus cadwyni cyflenwi.

Bydd y lefel hon o gymorth ar ddarparu PPE yn parhau, gyda'r Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i barhau i ddarparu PPE am ddim ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol cyhyd ag y bo angen i ymdrin â'r pandemig.

Bydd y dull hwn yn cael ei adolygu'n gyson, gan gynnwys mewn ymateb i ganfyddiadau ffrwd waith PPE yr *UK Review of Emergency Preparedness Countermeasures Advisory Board* y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl yn gynnar yn 2022.

Marwolaethau Covid-19 fesul Bwrdd Iechyd

Mae nifer y cleifion a allai fod wedi cael COVID-19 tra yn yr ysbyty yng Nghymru yn cael ei adrodd drwy'r dangosfwrdd gwyliadwriaeth Covid-19 Cyflym, gyda'r dudalen berthnasol ar gael drwy'r ddolen isod:

[Rapid COVID-19 virology - Public | Tableau Public](#)

Mae'r wybodaeth wedi'i rhannu yn ôl diffiniadau amrywiol o ddechrau'r haint, a gellir ei dadansoddi yn ôl dyddiad ac ardal Bwrdd Iechyd.

Gellir gweld gwybodaeth sy'n ymwneud â marwolaethau COVID-19 drwy'r dangosfwrdd yn yr un modd, gyda'r ddolen i'r adran berthnasol isod. Noder bod y ffigurau marwolaethau yn cynnwys unrhyw adroddiad i Iechyd Cyhoeddus Cymru am farwolaeth claf mewn ysbyty neu breswlydd cartref gofal lle mae COVID-19 wedi'i gadarnhau gyda phrawf Labordy cadarnhaol a lle mae'r clinigwr yn amau bod hwn yn ffactor achosol yn y farwolaeth. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynhyrchu ystadegau marwolaethau rheolaidd yn seiliedig ar dystysgrifau marwolaeth.

[Rapid COVID-19 virology - Public | Tableau Public](#)

Mae dadansoddiad pellach o farwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn cael ei gynnal a byddaf yn rhannu allbynnau hynny gyda'ch pwyllgor pan fydd ar gael.

Brechu teg

Mae brechu teg yn bwysig o safbwynt iechyd y cyhoedd, ac mae hefyd yn fater o gyfiawnder cymdeithasol. Gwyddom fod y Coronafeirws wedi effeithio'n anghymesur ar lawer o'r grwpiau hynny sy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau yn ein cymunedau. Rydym yn ymwybodol hefyd fod y pandemig wedi gwaethygu anghydraddoldebau iechyd sylweddol. At hynny, cydnabyddir bod petruster brechu yn llawer mwy cyffredin yn y grwpiau poblogaeth sy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau yn ein cymdeithas.

Mae brechu teg yn un o egwyddorion allweddol rhaglen frechu Cymru. Mae'r ymgyrch 'neb yn cael ei adael ar ôl' a nodir yn Strategaeth Frechu Covid-19 ar gyfer yr Hydref a'r Gaeaf

(Atodiad B) cam 3 wedi'i hadeiladu ar y rhagdybiaeth y dylai pawb gael mynediad teg a chyfle teg i fanteisio ar y cynnig o frechiad COVID-19.

Sefydlwyd Pwyllgor Brechu Teg (VEC) COVID-19 ar y cyd gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gynnar yn y broses o gyflwyno'r Rhaglen Frechu i nodi rhwystrau i fanteisio ar y cynnig ac achosion petruster a chynghori ar gymorth ychwanegol i gynyddu'r ddarpariaeth ar draws grwpiau sy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau yn ein cymunedau. Mae'n cynnwys llawer o sefydliadau ambarél sy'n gweithio gyda grwpiau sy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau ac yn cynrychioli buddiannau'r grwpiau hyn, gan ddarparu dealltwriaeth o'r cymunedau hyn a mynediad atynt.

Mae'r VEC a'r Strategaeth Brechu Teg COVID-19 ategol yn nodi'r nod y dylai pawb yng Nghymru sy'n gymwys i gael brechiad COVID-19 gael mynediad teg a chyfle teg i gael eu brechu. Caiff ei lywio gan adroddiad gwyliadwriaeth uwch misol Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n monitro ac yn tynnu sylw at fylchau tegwch yn y nifer sy'n manteisio ar y cynnig i gael eu brechu ac yn helpu i deilwra gweithgarwch ymgysylltu a chyfathrebu.

Mae gan bob Bwrdd Iechyd weithwyr allgymorth a chynlluniau cyfathrebu sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r pryderon penodol a godwyd sy'n rhoi llais i bobl o gefndiroedd amrywiol ac mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Mae cynnig cyfleoedd i ddal i fyny ac ymyriadau lleol i fynd i'r afael â rhwystrau yn bwysig er mwyn parhau i gau'r bylchau.

Gan weithio gyda Byrddau Iechyd ac ystod eang o bartneriaid, rydym yn annog pobl i fanteisio ar y cynnig i gael eu brechu drwy ei gwneud hi mor hawdd â phosibl i gael brechlyn drwy gynnig gwasanaeth hyblyg yn ôl amgylchiadau lleol. Er enghraifft:

- Mae canolfannau brechu torfol ledled Cymru yn cynnig oriau estynedig gyda'r nos ac maent ar agor ar benwythnosau.
- Mae mentrau trafnidiaeth neu deithio wedi bod ar waith mewn sawl ardal;
- Mae gwasanaethau allgymorth, clinigau dros dro a gwasanaethau symudol wedi cyflwyno'r brechlyn i gymunedau na fyddent wedi manteisio ar y cynnig fel arall o bosibl.
- Gyda chymorth partneriaid, cynhaliwyd clinigau brechu mewn lleoliadau cyfarwydd megis canolfannau ffydd, diwylliannol a chymunedol.

Mae hi hefyd yn bwysig bod pobl yn gallu cael gafaél ar wybodaeth gywir, ddibynadwy a hygyrch fel y gallant wneud dewis gwybodus ynghylch manteisio ar y cynnig i gael eu brechu. Dyma pam, er enghraifft:

- Cynhyrchwyd deunyddiau gwybodaeth ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd ac mewn ystod eang o ieithoedd a fformatau hygyrch;
- Cafwyd digwyddiadau ymgysylltu a gweminarau gwybodaeth, dan ofal arweinwyr ffydd neu arbenigwyr clinigol yn aml.
- Bydd Byrddau Iechyd yn ystyried sut a ble y gellir rhoi gwersi a nodwyd yn ystod camau cyntaf y rhaglen frechu ar waith wrth gyflwyno'r pigiad atgyfnerthu.

Bydd brechu teg yn parhau i fod yn egwyddor allweddol wrth i ni ddechrau'r broses o drosglwyddo'r rhaglen frechu COVID-19 i fod yn fusnes fel arfer.

Y Gweithlu Brechlyn

Mewn ymateb i'r wybodaeth a oedd yn dod i'r amlwg am Omicron a'i effaith, datblygwyd cynllun i gyflymu'r broses o roi'r pigiad atgyfnerthu ar 13 Rhagfyr i wella'n gyflym allu'r gweithlu i gynnig pigiad atgyfnerthu i bawb cymwys cyn 31 Rhagfyr. Roedd hyn yn cynnwys:

Adleoli staff y GIG o wasanaethau a thimau eraill

- Adleoli staff y GIG o dimau cenedlaethol neu ganolog
- Personél y gwasanaeth tân
- Personél awdurdodau lleol
- Cymorth milwrol (MACA) gyda 70 o staff mewn ystod o rolau i gefnogi brechu tan ddiwedd mis Ionawr
- Archwilio'r defnydd o staff yn adrannau eraill y llywodraeth.

Oherwydd natur y pandemig a'r angen i roi'r amddiffyniad gorau posibl i bobl mewn ymateb i donnau amrywiolion dros y flwyddyn ddiwethaf, bu adegau pan fu angen cynyddu'r gweithlu brechu yn sylweddol.

Un enghraifft o ymdrech fer a sydyn o'r fath oedd mewn ymateb i Omicron; cynyddwyd capasiti'r gweithlu brechu yn sylweddol drwy'r mecanweithiau a nodwyd uchod, am gyfnod byr, i sicrhau bod pawb cymwys yn cael cynnig pigiad atgyfnerthu cyn 31 Rhagfyr. Er mwyn lliniaru'r effaith ar y GIG gymaint â phosibl, cafwyd ymgyrch i ddefnyddio gwirfoddolwyr o weithluoedd nad ydynt yn rhan o'r GIG o wasanaethau cyhoeddus a brys eraill, y sector gwirfoddol, pobl sydd wedi ymddeol a myfyrwyr. Fodd bynnag, yn ddiau, cafwyd effaith ar ofal wedi'i drefnu, gwasanaethau a thriniaethau eraill y GIG. Wedi i'r niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig ddechrau lleihau, mae modelau a rotas y gweithlu wedi'u haddasu, gyda staff wedi'u hadleoli yn dychwelyd i'w gwasanaethau arferol (cyn brechu). Mae gwasanaethau arferol eisoes wedi aildechrau ers dechrau'r Flwyddyn Newydd.

Yn ogystal, mae cyfraddau salwch tymor byr a hunanynysu uwch wedi cael mwy o effaith ar y cam presennol nag yn y camau blaenorol oherwydd nifer uwch o achosion o COVID-19 yn y gymuned.

Mae cynllunio'r gweithlu yn y dyfodol ar lefel genedlaethol a lleol wedi ystyried y pwysau ychwanegol ar y system iechyd a gofal, a bydd yn parhau i wneud hynny. Nod holl sefydliadau GIG Cymru yw defnyddio model gweithlu wedi'i rannu rhwng staff craidd a staff hyblyg. Cryfder y model hwn yw'r hyblygrwydd i gynyddu a lleihau gweithgarwch yn dibynnu ar lwybr y pandemig, unrhyw donnau yn y dyfodol a chynlluniau brechu yn y dyfodol.

Mae ymgyrch recriwtio ar gyfer gweithwyr proffesiynol heb eu cofrestru yn parhau ym mhob Bwrdd Iechyd i sefydlogi modelau'r gweithlu. Mae Byrddau Iechyd yn cynllunio ar gyfer gofynion presennol, megis brechu plant 5-11 oed sy'n wynebu risg sy'n gofyn am staff pediatrig, a gofynion yn y dyfodol, megis unrhyw bigiadau atgyfnerthu pellach.

Mae'r broses o recriwtio staff o'r hysbyseb i gychwyn yn y swydd yn cael ei adolygu'n gyson i gwtogi'r broses ar gyfer y swyddi blaenoriaeth hyn. Mae hon yn broses sy'n cael ei harwain gan dimau'r gweithlu yn y Byrddau Iechyd/ymddiriedolaethau a NHSSSP.

Materion trawsffiniol

Mae pob un o'r pedair gwlad wedi cadw at gyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) gydol y rhaglen frechu. Er y gallai'r ddarpariaeth weithredol amrywio ychydig, mae'r

cymhwysedd a'r blaenoriaethu craidd yr un fath ym mhob un o'r pedair gwlad. Rydym yn cyfarfod fel pedair gwlad bob wythnos i drafod datblygiadau, cyflenwad, darpariaeth, cynnydd a heriau.

Mae gan Fyrddau Iechyd gysylltiadau da hefyd â'u cymheiriaid dros y ffin yn Lloegr sy'n cefnogi'r bobl hynny sy'n byw yng Nghymru ac yn cael mynediad at wasanaethau iechyd yn Lloegr ac i'r gwrthwyneb.

Mae gennym gytundeb rhannu data ar waith rhwng Cymru a Lloegr ar gyfer trosglwyddo data brechu, ac mae hyn yn digwydd. Rydym hefyd yn gweithio gyda gwledydd eraill y DU a thiriogaethau dibynnol ar y Goron wrth gytuno ar y llysoedd data angenrheidiol. Bydd hyn yn datrys y problemau o ran diffyg gwelededd brechiadau a weinyddir mewn tiriogaethau daearyddol eraill yn y DU. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw broblemau trawsffiniol fel y'u cyflwynwyd.

Trefniadau Llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

Mewn perthynas â'r tri argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru a gynhwysir yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Mai 2021 ar drefniadau Llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC), gweler yr ymateb isod:

Argymhelliad 5: Recriwtio Aelod Annibynnol

Ym mis Gorffennaf 2021, cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y dylid gwneud mwy o waith gyda'r GIG yng Nghymru i archwilio system o gydnabyddiaeth ariannol i aelodau annibynnol WHSSC er mwyn denu a chadw aelodau. Wedi hynny, bu swyddogion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chadeirydd ac Ysgrifennydd Pwyllgor WHSSC ar yr egwyddorion a ddylai fod yn sail i newid o'r fath. Ystyriwyd papur gan Gadeiryddion GIG Cymru ar 5 Hydref a chafwyd ymgysylltiad pellach â chynrychiolwyr y Cadeiryddion yn dilyn y cyfarfod hwnnw hefyd.

Mae'r risg uniongyrchol i gworwm WHSSC wedi'i osgoi drwy benodi dau aelod newydd o dan y trefniadau presennol, heb gydnabyddiaeth ariannol, ond mae angen dal angen sicrhau gwydnwch wrth symud ymlaen. Felly, mae mesurau i dalu aelodau annibynnol WHSSC yn cael eu datblygu i'w cytuno gan aelodau WHSSC yn ystod y misoedd nesaf, a byddant yn cael eu hadolygu ar ôl iddynt fod ar waith am 12 mis. Mae cydnabyddiaeth ariannol aelodau annibynnol WHSSC yn cydnabod yr ymrwymiad amser ychwanegol sy'n ofynnol gan aelodau annibynnol y Bwrdd Iechyd wrth gyflawni rôl aelod annibynnol WHSSC. Fodd bynnag, os nad cydnabyddiaeth ariannol yw'r ateb, cydnabyddir, fel y nodwyd yn adroddiad Archwilio Cymru, y gallai fod angen diwygiad deddfwriaethol er mwyn darparu ar gyfer ehangu'r gronfa y gellir dethol aelodau annibynnol ohoni. Pe bai angen hyn, byddai angen ei ystyried yng ngoleuni blaenoriaethau deddfwriaethol y Gweinidog, ac nid yw ar y rhaglen ar hyn o bryd.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio ochr yn ochr â WHSSC wrth iddynt fwrw ymlaen â chytuno ar y trefniadau ar gyfer penodi'r aelodau annibynnol drwy drefniadau llywodraethu'r Cydbwyllgor.

Argymhelliad 6: Rheoli rhaglenni is-ranbarthol a rhanbarthol (yn gysylltiedig ag argymhelliad 2 a gyfeiriwyd at WHSSC); ac

Argymhelliad 7: Trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer gwasanaethau arbenigol yn y dyfodol

Mae WHSSC wedi nodi ei fod yn cryfhau ei allu ei hun mewn perthynas â rheoli'r rhaglen o amgylch gwasanaethau arbenigol newydd a gomisiynwyd. Cyflawnir hyn drwy benodi amryw o staff allweddol a defnyddio dull cyffredin o reoli prosiectau. Pan nad WHSSC yn unig sy'n gyfrifol am wasanaethau, byddant yn cyfrannu at drefniadau rhaglenni.

O ran y darlun ehangach, rydym hefyd yn dal i ystyried, gyda Gweinidogion, gynlluniau ar gyfer gweithrediaeth genedlaethol newydd, fel y nodir yn Cymru Iachach, i ddarparu arweinyddiaeth gryfach a chyfeiriad strategol i'r system iechyd. Cafodd y gwaith hwn ei oedi er mwyn canolbwyntio ymdrechion ar yr ymateb i'r pandemig, ac ni allaf fynd o flaen penderfyniad y Gweinidog ar y cynlluniau hyn yn y llythyr hwn. Fodd bynnag, rwy'n ymrwymo i ysgrifennu atoch eto i nodi'r meysydd hyn yn fanylach unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud.

Er nad wyf yn rhagweld y bydd y cynlluniau ar gyfer gweithrediaeth genedlaethol yn effeithio'n uniongyrchol ar WHSSC, gwnaethom ymrwymo yn Cymru Iachach i adolygu rhannau eraill o lywodraethu GIG Cymru, gan gydnabod, er enghraifft, fod rhai o'r trefniadau ar gyfer swyddogaethau cenedlaethol yn gymhleth. Er mai ein bwriad o hyd fyddai adolygu'r trefniadau hyn, ni ellir eu hystyried yn flaenoriaeth yn ystod y pandemig presennol.

Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol – Cyfarpar Diogelu Personol

Gwnaethoch ofyn am ddiweddariad ysgrifenedig ar y camau a gymerwyd mewn ymateb i argymhellion Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys rhagor o fanylion am y cynllun caffael a'r disgwyliadau y mae Llywodraeth Cymru bellach yn eu rhoi ar ddarpar gyflenwyr. Gweler yr isod.

Argymhelliad 1 – *Fel rhan o ddull gwersi-a-ddysgwyd ehangach, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda gwledydd eraill y DU lle y bo'n bosibl i ddiweddarau cynlluniau i gadw pentwr ar gyfer pandemig i sicrhau ei fod yn ddigon hyblyg i ateb galwadau pandemig a allai ddeillio o wahanol fathau o feirysau.*

Camau a gymerwyd – Mae cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn mynychu cyfarfodydd o'r *UK Review of Emergency Preparedness Countermeasures Advisory Board* (dan gadeiryddiaeth DHSC) ac maent yn disgwyl i'r ffrwd waith PPE adrodd yn gynnar yn 2022. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn cymryd rhan a byddant yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar yr argymhellion PPE wrth i'r gwaith ddatblygu.

Yn y cyfamser ac i gynnal parodrwydd, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i NWSSP gynnal cyflenwad wrth gefn o'r holl eitemau PPE allweddol a fyddai'n para o leiaf 16 wythnos (yn seiliedig ar y gyfradd ddefnyddio 16 wythnos uchaf pan oedd y pandemig ar ei waethaf).

Argymhelliad 2 - *Wrth ddiweddarau ei chynlluniau ei hun ar gyfer ymateb i bandemig yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru gydweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill i ddiffinio set o drefniadau llywodraethu ar draws y sector cyhoeddus ar gyfer cynllunio, caffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol fel nad oes angen datblygu'r rhain o'r dechrau un.*

Camau a gymerwyd - Fel yr adlewyrchir yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae cydweithio â rhanddeiliaid wrth wraidd ymateb Llywodraeth Cymru a NWSSP o ran caffael a chyflenwi PPE. Mae arfer gorau a gwersi a ddysgwyd ar PPE wedi'u casglu gydol y pandemig, ac mae'r rhain yn cynnwys cydnabyddiaeth bod fframweithiau llywodraethu a chyllid, mewn rhai achosion, yn cael eu dylunio wrth i'r pandemig fynd rhagddo, gan arwain

at rywfaint o ddyblygu ymdrech. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r holl drefniadau llywodraethu ar PPE ac wedi sicrhau bod y cylch gorchwyl yn glir ar yr atebolrwydd rhwng grwpiau a thimau llywodraethu. Mae'r adolygiad yn sicrhau hefyd fod y fframwaith gwneud penderfyniadau a mesurau rheoli ar gyfer PPE wedi'i gyfleu a'i gytuno ymlaen llaw fel y gellir cynnwys gofynion llywodraethu PPE mewn cynlluniau wrth gefn.

Mae'r trefniadau hyn yn cael eu hadolygu'n gyson, er enghraifft, er mwyn sicrhau aliniad â dull ehangach y Pedair Gwlad a Pharoddrwydd am Argyfyngau.

Argymhelliad 3 - *Dylai'r Cydwasanaethau weithio gyda'r GIG a chyrrff y sector gofal cymdeithasol i gynnal system gwybodaeth reoli gyfoes ar gyfer stoc sy'n darparu data amserol ar stociau lleol a chenedlaethol o Gyfarpar Diogelu Personol y gellir tynnu arnynt yn gyflym mewn pandemig yn y dyfodol i gefnogi amcanestyniadau o'r galw ac argaeledd yn ogystal â darparu ffynhonnell wybodaeth gadarn ar gyfer briffio rhanddeiliaid.*

Mae NWSSP wedi dweud eu bod bellach wedi prynu a chyflwyno eu system PPE Stockwatch ar draws yr holl storfeydd Covid yn y GIG a gofal cymdeithasol. Yn ogystal, mae gwybodaeth am gyflenwadau PPE bellach yn cael ei chasglu o fewn system Oracle Inventory NWSSP fel rhan o adroddiadau busnes fel arfer NWSSP.

Argymhelliad 4 - *Wrth ddiweddarau'r ymagwedd strategol tuag at Gyfarpar Diogelu Personol, dylai'r Cydwasanaethau a Llywodraeth Cymru gydweithio i ddatblygu cyfeiriad eglur o ran:*

- *Dychwelyd at gaffael cystadleuol a diwedd ar esemptiadau brys.*
- *Ystyriaeth lawnach i'r meini prawf ehangach a gymhwysir fel arfer i brosesau caffael, megis datblygu cynaliadwy a pholisiau ar gaethwasiaeth fodern.*
- *Y bwriadau a'r dyheadau mewn perthynas â'r farchnad Cyfarpar Diogelu Personol gartref, gan gynnwys y cydbwysedd rhwng manteision posibl cydnerthedd trwy gapasiti cynhyrchu lleol a'r costau a allai fod yn uwch o'i gymharu â gweithgynhyrchwyr rhyngwladol.*
- *Maint a natur y pentwr ar gyfer pandemig y maent yn bwriadu ei ddal, gan ystyried manteision a chostau dal a chynnal stoc ac amseriad pryniadau o ystyried yr amhariadau parhaus i'r farchnad Cyfarpar Diogelu Personol.*

Mae *Longer-term PPE Plan* presennol NWSSP (Hydref 2021) wedi'i gwblhau a'i gytuno gan grwpiau llywodraethu PPE Llywodraeth Cymru a NWSSP. Mae'r cynllun hwn yn nodi dull strategol NWSSP o gaffael a chyflenwi PPE yn barhaus.

Yn unol â'r cynllun hwn, mae contract fframwaith sy'n cydymffurfio'n llawn ar gyfer caffael cystadleuol yn y dyfodol wedi'i dendro ar gyfer pum eitem graidd o PPE (Menig, Masgiau Math IIR, Feisorau, Gynau Dolen Bawd a Chlytiau). Mae gan gynhyrchion nad ydynt wedi'u cynnwys ar y Fframwaith, megis masgiau FFP3, linellau cyflenwi mewnol cadarn drwy drefniadau caffael canolog y DU. Mae'r contract fframwaith wedi'i werthuso a'i ddyfarnu'n rhannol, gyda phroffion terfynol ar gynhyrchion ar y gweill gan SMTL. Bydd yn dod yn gwbl weithredol yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2022. Roedd dyfarnu'r contract fframwaith newydd yn ystyried yn llawn y pwyntiau a godwyd, gan gynnwys gwydnwch y gadwyn gyflenwi, yr economi sylfaenol, caethwasiaeth fodern, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a datgarboneiddio.

Mae pentwr y pandemig ar gyfer PPE yn cael ei reoli ar hyn o bryd i sicrhau cyflenwad wrth gefn a fyddai'n para 16 wythnos (yn seiliedig ar y gyfradd ddosbarthu pan oedd y pandemig ar ei waethaf) ar gyfer pob eitem graidd o PPE. Bydd gwydnwch ein llinellau cyflenwi mewnol a mynediad at ffynonellau newydd o PPE (os oes angen) drwy'r fframwaith contract yn sicrhau bod y cyflenwad hwn yn adlewyrchu lefel wydn a chadarn o ddiogelwch i ateb y galw nawr ac yn y dyfodol.

Argymhelliad 5 - *I gynyddu hyder mewn stociau a chyflenwadau ar y lefel genedlaethol, dylai'r Cydwasanaethau weithio gyda Llywodraeth Cymru i gyhoeddi manylion faint o stoc y maent yn eu dal o bob eitem ochr yn ochr â chyhoeddi data'n rheolaidd ar niferoedd yr eitemau a ddyroddwyd.*

Camau a gymerwyd – Nid oedd Gweinidogion yn teimlo y byddai'n gymesur cyhoeddi data cenedlaethol ar stoc fel mater o drefn. Dylid nodi hefyd na fyddai cyhoeddi data cenedlaethol ar stoc yn rhoi darlun cywir o lefelau stoc gan na fyddai'n adlewyrchu cyflenwadau lleol sy'n aml yn sylweddol.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gyhoeddi datganiad ystadegol misol ar eitemau PPE a ddosbarthwyd yn seiliedig ar wybodaeth reoli a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru gan NWSSP. Ar hyn o bryd, mae data ar lefelau stoc yn cael ei gyhoeddi ar gais.

Argymhelliad 6 - *Dylai'r Cydwasanaethau: wirio eu bod wedi cyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contract ar gyfer pob contract lle mae'n ofynnol iddynt wneud hynny; adolygu'r rhai y maent wedi'u cyhoeddi i sicrhau eu bod yn gywir; a sicrhau eu bod yn cyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contract o fewn y ffrâm amser ofynnol ar gyfer contractau yn y dyfodol.*

Camau a gymerwyd - mae NWSSP wedi adolygu'r holl ddyfarniadau contract presennol ac wedi cymryd camau unioni lle bo angen i sicrhau bod hysbysiadau dyfarnu contractau wedi'u cyhoeddi.

Yn ogystal, aeth NWSSP ati i adnewyddu eu gweithdrefnau gweithredu mewnol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth yn y dyfodol â'r gofynion i gyhoeddi hysbysiadau ar gyfer contractau.

Argymhelliad 7 - *Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a oes angen diweddarau gwefan GwerthwchiGymru i alluogi cyrff i gyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contract ôl-weithredol yn fwy effeithlon heb ddibynnu ar gyflenwyr i gofrestru.*

Camau a gymerwyd - mae NWSSP wedi diweddarau GwerthwchiGymru i adlewyrchu'r holl ddyfarniadau uniongyrchol. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o wefan GwerthwchiGymru a nododd opsiynau posibl ar gyfer cyhoeddi dyfarniadau uniongyrchol yn y dyfodol, ond roedd yr opsiynau hyn yn gofyn am ymdrech weinyddol gan y prynwr a'r gwerthwr. Yn ogystal, mae NWSSP wedi dweud bod sefydlu Fframwaith PPE newydd yn golygu bod llai o risg o ddyfarniadau uniongyrchol yn y dyfodol o ystyried y bydd cadwyn gyflenwi fwy gwydn ar waith – ar y sail hon, ni chafodd yr opsiynau a nodwyd yn adolygiad Llywodraeth Cymru eu datblygu.

Argymhelliad 8 - *O ystyried diddordeb y cyhoedd yn y modd y dyfarnwyd contractau Cyfarpar Diogelu Personol ac i hybu hyder yn y system gaffael, dylai Llywodraeth Cymru a'r Cydwasanaethau gyhoeddi manylion y contractau a ddyfarnwyd dan esemptiadau brys mewn un lle y mae'n hawdd cael mynediad ato.*

Camau a gymerwyd – mae NWSSP wedi cyhoeddi rhestr lawn o gontractau PPE a ddyfarnwyd ar eu gwefan.

Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol – rhaglen frechu

Wrth i ni drosglwyddo o bandemig i endemig, mae'n anochel y bydd brechu rhag Covid-19 yn rhan o'r broses o ddysgu i fyw gyda'r feirws. Wrth addasu i ddull busnes fel arfer (yn debyg i raglenni imiwneiddio eraill), byddwn yn parhau i gael ein harwain gan y dystiolaeth a'r cyngor clinigol a gwyddonol diweddaraf gan y JCVI, sydd wedi bod yn briodol ac yn gymesur gydol y pandemig, o ran amseru dosau atgyfnerthu yn y dyfodol a phwy sy'n gymwys i'w cael.

Ar lefel genedlaethol a lleol, rydym bellach yn edrych ar sut beth fyddai System Frechu Integredig, o safbwynt Covid-19 ac o safbwynt yr holl imiwneiddiadau eraill. Rydym yn ystyried ac yn cynllunio ar gyfer sut mae cyflwyno'r rhaglen frechu Covid-19 yn cyd-fynd ag imiwneiddiadau eraill – gan gymryd yr hyn rydym wedi'i ddysgu o'r broses o gynnig y brechlyn hyd yma. Mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau gwasanaeth yn y dyfodol sy'n addas i'r diben wrth symud ymlaen, gan gynnwys sicrhau ei fod yn ddigon gwydn i ymdopi ag achosion neu ddigwyddiadau mawr yn y dyfodol. Mae manteisio ar sefyllfa'r gweithlu yn bwysig hefyd, gan sicrhau bod yr arbenigedd brechu a enillir gan staff yn cael ei ddefnyddio a'i ddatblygu. Mae ystyried sefyllfa'r dyfodol o safbwynt gwerth am arian, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn hanfodol, ynghyd â darparu gwasanaeth cyfeillgar, hygyrch a theg i gleifion.

Wrth i ni symud o ymateb brys, mae wedi rhoi amser i resymoli ein trefniadau goruchwyllo a llywodraethu, rhoi'r gorau i gyfarfodydd dyddiol ac adroddiadau ar y sefyllfa bresennol i ddarparu mwy o le ar gyfer cyfuniad o waith ymatebol a chynllunio at y dyfodol. Rydym yn parhau i adrodd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Weinidog yn rheolaidd ac mae Bwrdd Rhaglen Frechu Covid-19 yn parhau i gyfarfod bob pythefnos i ddarparu goruchwyliaeth.

Caiff y trefniadau llywodraethu hyn eu hadolygu yn unol â'n ffocws cynyddol ar gynllunio yn y dyfodol tuag at ddull mwy integredig.

Fel yr amlinellir uchod, bydd rhaglen frechu Covid-19 yn parhau i fanteisio i'r eithaf ar y seilwaith a'r dulliau presennol o gyrraedd y cymunedau mwyaf agored i niwed a'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau, gan lywio gwasanaethau i estyn allan i gymunedau yn unol â data a gwybodaeth leol. Ni fyddwn yn colli golwg ar ein hegwyddor 'neb yn cael ei adael ar ôl'.

Mae cynllunio lefel uchel wedi dechrau datblygu cynllun gweithlu system gyfan ar gyfer cam nesaf y rhaglen sydd, fel yr amlinellir uchod, yn edrych ar y potensial i ddatblygu gwasanaeth brechu integredig gyda'r nod o ddarparu model a all addasu i ofynion iechyd poblogaeth gynyddol.


Ers dechrau mis Rhagfyr, ni sydd wedi bod â'r rhaglen pigiad atgyfnerthu gyflymaf yn y DU. Rydym wedi rhoi mwy nag 1.8 miliwn o bigiadau atgyfnerthu a thrydydd dosau. Mae hynny'n fwy na dwy ran o dair o'n poblogaeth 12 oed a hŷn (67%).

Fel rhan o gynllunio at y dyfodol, rhagdybir y bydd angen i'r ystad frechu fod yn hyblyg i ymateb i unrhyw gynnydd mewn achosion, gyda'r tebygolrwydd y bydd tonnau ac

amrywiolion yn y dyfodol yn bresennol drwy'r amser. Bydd angen i'r seilwaith addasu i gydfynd â'r galw presennol, gan gynnwys y cyflenwad o frechlynnau, y gweithlu a'r ystad. Bydd model cyfunol effeithiol Byrddau Iechyd yn parhau i gael ei ddilyn, gan sicrhau hyblygrwydd ar gyfer gwasanaethau a hygyrchedd a thegwch i gleifion.

Gobeithio fy mod wedi rhoi eglurder ar y meysydd a nodwyd yn eich llythyr ond, os hoffech gael rhagor o wybodaeth, rhowch wybod i mi.

Yn gywir



Judith Paget CBE

cc: Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Albert Heaney

Steve Elliot

Lisa Wise

Claire Rowlands

Andrew Sallows

Nick Wood

Chris Jones